



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru



Uwch Archwiliwr Pecyn Recriwtio

Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

Ble rydym wedi'n lleoli

Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- Aberystwyth, Ceredigion
- Bangor, Gwynedd
- Conwy
- Dolgellau, Gwynedd
- Helygain, Wrecsam
- Llandrindod, Powys
- Drenewydd, Powys



Cyflog: PS1 (SCP 29-31) £41,177 - £43,149

Cyfnod: Parhaol

Lleoliad:— Bangor, Conwy, Helygain, Dolgellau, Aberystwyth, Llandrindod, Drenwydd

Dyddiad cau: 10am 10/11/2026

Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.

Rydym yn chwilio am Uwch Archwiliwr i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

Ymgeisiwch

Pwrrpas y swydd

- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i ddatblygu, gweithredu a rheoli strategaeth a rhaglen Archwilio gynhwysfawr ar gyfer yr ystod gyfan o swyddogaethau a gweithgareddau'r Asiant.
- Cynorthwyo gyda swyddogaeth Archwilio Mewnol yr Asiant gan ddarparu sicrwydd ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli a'r trefniadau llywodraethu.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i ymgymryd ag archwiliadau cyfrinachol/sensitif ac ymchwiliadau ar ran Uwch Dîm Rheoli'r Asiant.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio gyda 'Systems Thinking' / Gweithio Darbodus (LEAN working).



- Cynnal ymchwiliadau, adolygiadau, ac archwiliadau o systemau gweinyddol, contractau, prosiectau a sefydliadau sy'n ymwneud â fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoliadau mewnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, dan gyfarwyddyd y Rheolwr Archwilio.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio gydag archwiliadau ymatebol neu arbennig, gan gynnwys anghysondebau, twyll a materion disgyblu gan roi gwybod ar unwaith i'r Rheolwr Archwilio am unrhyw anghysondebau.
- Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr, Rheolwyr, staff craidd a defnyddwyr gwasanaeth yn ystod adolygiadau archwilio.
- Paratoi rhaglenni archwilio.
- Cynhyrchu papurau gwaith a pharatoi adroddiadau archwilio i bob adolygiad, gan adnabod risgiau posib mewn llywodraethu, rheoli risg a rheoliadau mewnol, a thrafod canfyddiadau gyda'r swyddogion/rheolwyr perthnasol i gytuno ar gamau lliniaru.
- Yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith maes archwilio, adroddiadau drafft a'r adroddiadau terfynol yn cael eu cyflawni'n brydlon.
- Yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth.
- Cyfrannu at, a chynnal astudiaethau gwerth am arian.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio gyda datblygiad cynllun adfer ar gyfer yr holl wendidau lle nad oes cydymffurfio/gwendidau rheoli a dilyn hyn drwy weithredu camau cywiro.
- Cynghori a rhoi arweiniad i gleientiaid am reoliadau mewnol, trefniadau llywodraethu a gweinyddiaeth ariannol gadarn.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i adeiladu a chynnal perthynas gref gyda rhanddeiliaid mewnol (uwch swyddogion, Tîm Rheoli'r Asiant) a rhanddeiliaid allanol (Swyddogion Llywodraeth Cymru, BSi, ac ati).
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i fonitro datblygiadau cyfreithiol, rheoleiddio a pholisi sydd yn effeithio ar weithrediadau archwilio, cyllid a llywodraeth leol (yn gynnwys rheoliadau Llywodraeth Cymru ac ati).
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i sicrhau bod egwyddorion polisïau corfforaethol yn treiddio drwy'r gwasanaeth.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i weithredu newid yn y maes gwasanaeth lle bo'n angenrheidiol gwneud hynny.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i sicrhau bod cwynion yn derbyn sylw priodol a bod y tîm yn ystyried unrhyw wersi a gyfyd i wella'r gwasanaeth.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i ymgymryd ag archwiliadau cyfrinachol/sensitif ac ymchwiliadau ar ran Uwch Dîm Rheoli'r Asiant mewn perthynas â pherfformiad Awdurdod Partner/perfformiad cyflenwr sector preifat a materion disgyblu mewnol (fel bo angen).
- Cynrychioli'r Rheolwr Archwilio mewn cyfarfodydd a gweithgorau pan fo angen.
- Cynnal cyfrinachedd lem mewn perthynas â holl weithgareddau'r Asiant yn unol â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio ar brosiectau 'Systems Thinking' ar draws yr Asiant er mwyn gwella gwasanaethau, lleihau gwastraff a chyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Gweithio ar y cyd ag uwch arweinwyr, rheolwyr a staff i ail-ddylunio gwasanaethau o safbwynt y cwsmer, gan ddefnyddio data, dealltwriaeth ac ymgysylltu i ddeall ac ymdrin gydag achosion gwraidd y galw.
- Cefnogi'r Rheolwr Archwilio drwy hyrwyddo 'Systems Thinking' fel dull craidd sefydliadol ar gyfer gwella, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau corfforaethol ac amcanion llesiant.
- Gwreiddio dysgu parhaus ac ymarfer myfyriol ar draws yr asiant.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i ddylunio a chyflawni adolygiadau trawsbynciol i adnabod materion , aneffeithlonrwydd a chyfleoedd i wella ar draws y system.
- Cefnogi'r Rheolwr Archwilio drwy hyrwyddo gweithdai a sesiynau dysgu i ddatblygu capasiti mewnol yn 'systems thinking'.



Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

Meini prawf penodol i'r swydd

Hanfodol

Hyderus, cydwybodol, gallu gweithio heb oruchwyliaeth a chwrdd â therfynau amser. Yn gallu cyfathrebu yn effeithiol a thrafod gwaith Archwilio Mewnol gyda swyddogion yr Asiant a chyda chwsmeriaid allanol pan fo angen.

Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Hanfodol

Gradd, neu wedi cymhwyso'n rhannol gyda'r IIA neu gorff CCAB.

Profiad perthnasol

Hanfodol

Profiad o archwilio, rheoli risg neu waith cydymffurfio.

Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Hanfodol

Cynllunio a chwblhau gwaith heb oruchwyliaeth, ysgrifennu a chynhyrchu adroddiadau. Dealltwriaeth ymarferol o Microsoft Word.

Gofynion ieithyddol

Hanfodol

Gwranddo a Siarad - Lefel Uwch

Yn gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth ar lefel broffesiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg a thrafod pynciau gwaith cyffredinol er mwyn cyfleu gwybodaeth a rhoi barn. Yn gallu rhoi cyflwyniad wedi ei baratoi ymlaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Darllen a Deall - Lefel Uwch

Yn gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol; yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn gallu casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau ac ati drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni gofynion y swydd.

Ysgrifennu - Lefel Uwch

Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hyderus ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl ac ar ffurf adroddiad technegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig drwy gyfleu gwybodaeth, barn a syniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg (mae cymorth ar gael i wirio'r gwaith).

Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisiâu blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Cronfa Bensiwn Gwynedd](#).



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.

